Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2014 (Papur 5)**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli**

**Dyddiad: 25 Tachwedd 2009**
**Amser: 07.45**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**
**Enw a rhif ffôn yr awdur: Claire Clancy, est 8823**

# Adroddiad y Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad - Tachwedd 2009

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.*

**1 Nodau strategol Comisiwn y Cynulliad**

**1.1 Nod strategol – hyrwyddo datganoli ac annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y broses**

**(a) Sylw yn y cyfryngau**

Bu'r cyfryngau'n canolbwyntio'n ddiweddar ar y cymorth ariannol ar roddir i Aelodau'r Cynulliad ac, yn benodol, ar Fesur arfaethedig y Comisiwn ynghylch creu Panel Taliadau Annibynnol i bennu cyflogau a lwfansau Aelodau. Cynhaliwyd nifer sylweddol o gyfarfodydd â'r wasg ac, yn gyffredinol, roedd y sylw a gawsom yn ffafriol er y cafodd gwrthwynebiad i'r Mesur ychydig o sylw negyddol.

Cafodd y Cynulliad sylw ffafriol am bedwar diwrnod yn olynol ar ôl rhoi cam cyntaf argymhellion y Panel Adolygu ar waith. Cafodd yr hyn sy'n cael ei roi ar waith ym mae Caerdydd ei gymharu'n ffafriol â'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan.

Cafwyd rhywfaint o sylw negyddol ar ôl rhyddhau gwybodaeth, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn ymwneud â chost bws y Cynulliad Cenedlaethol a diwrnodau

**cwrdd i fwrdd y staff. Er hyn, roedd ein hymatebion yn gryf ac fe'u dyfynnwyd yn llawn yn y stori yn y Western Mail. Roedd y penderfyniad i gynnwys dyfyniadau gan y Comisiynwyr yn ein hymatebion yn arbennig o ddefnyddiol a chawsant i gyd eu cynnwys yn y storïau perthnasol.**

**Rydym yn awr yn gwbl barod gydag atodiadau fideo i gyd-fynd â'r prif ddatganiadau i'r cyfryngau am adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad ac am lansio ymgynghoriadau. Mae'r wasg ar hyd a lled Cymru wedi defnyddio llawer o'r rhain ac mae tîm y cyfryngau yn monitro faint sy'n eu defnyddio. Dyma un enghraifft:**

**http://www.thisissouthwales.co.uk/news/Sunbed-ban-18s/article-1380835-detail/article.html**

**1.2 Nod strategol – dangos undod ac arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol**

**(a) Y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ddeddfwriaethol**

**Ers adroddiad diwethaf y Comisiwn, mae nifer o gerrig milltir eraill yn natblygiad y Cynulliad fel deddfwrfa wedi'u pasio:**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1**

**Ar 15 Hydref 2009, cafwyd Cymeradwyaeth Frenhinol i Fesur Jenny Randerson, sef y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009. Dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth a gynigiwyd gan Aelod Cynulliad o'r meinciau cefn i ddod yn rhan o gyfraith Cymru ers datganoli.**

**Cytunodd y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) yn ystod dadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Gorffennaf. Mae'r Mesur yng Nghyfnod 2 ar hyn o bryd a disgwylir penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid.**

**Ar hyn o bryd mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn ystyried y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad**

Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) ac mae'n rhaid iddo gyflwyno adroddiad erbyn 30 Tachwedd.

Cafodd Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei basio gan y Cynulliad ar 14 Hydref 2009 (gweler paragraff 2.1(b)).

Gosodwyd Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) gerbron y Cynulliad ar 19 Hydref. Dyma'r Mesur cyntaf i Gomisiwn y Cynulliad ei gyflwyno a Phwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 fydd yn ei drafod.

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Mae'r cyfnod ymgynghori ynghylch Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009 wedi dod i ben. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw dydd Gwener 4 Rhagfyr. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig hefyd wedi ymgynghori ynghylch y Gorchymyn arfaethedig.

Cafodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2009 ei basio gan y Cynulliad ar 10 Tachwedd. Mae'n debygol y caiff ei drafod yng nghyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Chwefror.

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

Cafodd Mesur Addysg (Cymru) ei basio gan y Cynulliad ar 3 Tachwedd. Dylai gael ei gyflwyno gerbron y Cyfrin Gyngor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn cael Cymeradwyaeth Frenhinol iddo.

Gosodwyd y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch gerbron y Cynulliad ar 19 Hydref. Cyfeiriwyd y Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 gan y Pwyllgor Busnes er mwyn cynnal trafodaethau Cyfnod 1. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 23 Hydref 2009, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 13 Tachwedd. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad erbyn 18 Rhagfyr 2009.

Cafodd Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) a Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009 eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin ar 20 Hydref. Yn dilyn cymeradwyaeth flaenorol y Cynulliad a Thŷ'r Arglwyddi i'r ddau Orchymyn (ar 20 Gorffennaf 2009), disgwylir yn awr i'r Cyfrin Gyngor eu trafod.

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4

Ystyriodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) 2009 ar 14 Hydref. Disgwylir Gorchymyn drafft maes o law.

Cyflwynodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 adroddiad ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a Meysydd Eraill) 2009 ar 6 Tachwedd. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi ymgynghori ynghylch y Gorchymyn.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyfeirio Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2009 at Senedd y DU at ddibenion gwaith craffu. Mae Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin wedi galw am dystiolaeth yng nghyswllt y Gorchymyn arfaethedig a'r dyddiad cau yw 27 Tachwedd 2009. Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 hefyd wedi galw am dystiolaeth yng nghyswllt y Gorchymyn, a'r dyddiad cau yw 24 Tachwedd 2009.

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Gosodwyd Gorchymyn Arfaethedig drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 gerbron y Cynulliad ar 20 Hydref. Cafodd y Gorchymyn drafft ei gymeradwyo gan y Cynulliad ddydd Mawrth 3 Tachwedd. Bydd angen cymeradwyaeth y ddau dŷ yn Senedd y DU cyn y caiff ei wneud gan y Cyfrin Gyngor.

Gosodwyd adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar y Mesur arfaethedig ynghylch Taliadau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2009 gerbron y Cynulliad ar 3 Tachwedd. Cytunodd

y Cynulliad ar egwyddorion y Mesur arfaethedig ar 10 Tachwedd. Mae Cyfnod 2 wedi dechrau'n awr.

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Mae'r Pwyllgor Is-ddeddwriaeth wedi newid cryn dipyn ar y modd y mae'n gweithio o ganlyniad i'r 'Ymchwiliad i'r broses o graffu ar is-ddeddwriaeth a phwerau dirprwyedig'. Mae wedi dechrau ar y gwaith o graffu ar y darpariaethau ym Mesurau'r DU sy'n ymwneud â Chymru ac mae wedi cyflwyno adroddiadau ar bump o Fesurau'r DU hyd yma. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cyflwyno adroddiad ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth mewn saith o Fesurau'r Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor wedi ymateb yn raddol i'r newidiadau yn ei waith a bydd y gwaith sydd ar y gweill yn cynnwys craffu ar offerynnau statudol a thrafod gwaith craffu ar rinweddau mesurau drafft ac offerynnau statudol drafft. Bwriada'r Pwyllgor hefyd drafod sut y gallai'r Cynulliad ymdrin yn fwy systematig â deddfwriaeth Ewropeaidd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i fwrw ymlaen â meysydd gwaith eraill: adolygu offerynnau statudol; datblygu Atodlen 5 (gan gynnwys eithriadau i faterion); ac adolygu Rhaglen Reoleiddio Llywodraeth Cymru.

Cafwyd ymateb y Llywodraeth i ymchwiliad y Pwyllgor, a chaiff ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Rhagfyr.

Eraill

Cafodd adroddiad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol) 2009 Jonathan Morgan yn ymwneud â Gwasanaethau Iechyd Meddwl ei gyhoeddi ar 30 Hydref 2009.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008 Ann Jones, yn ymwneud â diogelwch tân yn y cartref at Senedd y DU at ddibenion gwaith craffu ar 8 Hydref 2009. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi galw am dystiolaeth.

Y balot

Bu Jeff Cuthbert yn llwyddiannus yn y balot i gyflwyno Mesur Aelod ar 14 Hydref, a chynigiodd Fesur ynghylch hawliau gweithwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Trefnwyd i gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn i geisio caniatâd i gyflwyno Mesur arfaethedig ddydd Mercher 18 Tachwedd.

Bu Darren Millar yn llwyddiannus yn y Balot i gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref, a chyflwynodd Orchymyn arfaethedig ynghylch Cynlluniau Parcio ffafraethol. Trefnwyd i gynnal dadl i geisio caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig cyn diwedd tymor yr hydref.

(b) Rhaglen y Rhwydwaith Unedig

Yn dilyn y penderfyniad i gymeradwyo'r gyllideb atodol ar 20 Hydref, mae bwrdd prosiect UNO wedi cyfarfod i gytuno ar fanylion y prosiect. Mae'r gwaith o bennu cost lawn y prosiect yn cael ei chwblhau wrth i waith cynllunio manwl ar y systemau gweithredu, y cyfrifiaduron a'r seilwaith fynd rhagddo. Mae cynllun prosiect newydd hefyd yn cael ei ddatblygu ac mae swyddfa enghreifftiol yn awr ar waith i roi'r cymwysiadau cyfredol a'r system weithredu newydd ar brawf. Caiff yr holl gymwysiadau a ddefnyddir gan Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad eu rhoi ar brawf yn yr amgylchedd newydd yn ystod mis Tachwedd, Rhagfyr ac Ionawr 2010, a cheir penderfyniad ar y systemau terfynol ym mis Chwefror 2010.

Caiff seilwaith y rhwydwaith a'r gweinyddion eu prynu ddechrau 2010, a threfnwyd i'w gosod ac i roi'r system ar brawf ym mis Mawrth 2010; dyma pryd y caiff cyfrifiaduron pen desg/gliniaduron newydd eu prynu hefyd. Caiff yr Aelodau wybodaeth am hynt y gwaith yn rheolaidd, a chânt gyfle i weld y dechnoleg newydd a dewis y cyfarpar sydd orau ganddynt hwy. Disgwylir i'r cyfrifiaduron newydd gael eu dosbarthu yn ystod toriad y Pasg. Os bydd oedi yn y profion neu'r trefniadau, cânt eu dosbarthu yn ystod toriad yr haf.

**1.3 Nod strategol – parch, gonestrwydd a llywodraethu da**

**(a) Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 22 Hydref a thrafodwyd llythyr rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cyfrifon 2008-09 y Comisiwn. Pwysleisiodd Swyddfa Archwilio Cymru fod eu casgliadau cyffredinol yn gadarnhaol ac mae'r chwe argymhelliad a wnaed ar gyfer gwella wedi'u derbyn ac yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Trafododd y Pwyllgor hefyd strategaeth archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyfrifon 2009-10, y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y cynlluniau archwilio mewnol a'r argymhellion, y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau rheoli risg ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2010-11. Yn achos yr olaf, cytunodd y Pwyllgor y dylid ystyried cael sicrwydd annibynnol ychwanegol ar gyfer y gyllideb a'r trefniadau monitro yn ystod y flwyddyn.

**(b) Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru (y Cynulliad a Llywodraeth Leol)**

Yn dilyn y seminarau asesu, dewiswyd 34 o bobl i'w paru ag Aelodau'r Cynulliad a Chynghorwyr. Dewiswyd y 34 o nifer o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, o bob rhan o Gymru, ac mae llawer yn cynrychioli meysydd cydraddoldeb gwahanol. O'r 25 merch a'r 9 gŵr ar y cynllun, mae 4 LHD, 14 o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a 10 o bobl ag anabledd.

Lansiwyd y cynllun yn swyddogol ar 7 Hydref 2009 yn y Senedd. Yn ystod y noson, cafwyd areithiau gan y Llywydd, y Cynghorydd Lindsay Whittle, Lorraine Barret AC a Leighton Andrews AC yn ogystal â pherfformiad gan Gôr Dynion Hoyw De Cymru.

Mae'r mentoriaid i gyd wedi cysylltu â'r mentoreion ac mae'r rhan fwyaf wedi cynnal cyfarfodydd eisoes. Mae'r mentoreion hefyd yn cael manteisio ar ein sesiynau hyfforddi. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar 4 Tachwedd, sef sesiwn yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned a bod yn ddinesydd gweithgar. Rydym yn cydweithio'n agos â'r Tîm Allgymorth a Lleisiau dros Newid Cymru i gynnal cyflwyniad

i Wleidyddiaeth Cymru yng Nghaerdydd a Wrecsam ddiwedd mis Tachwedd.

(c) Y newyddion diweddaraf am gyhoeddi treuliau'r Aelodau

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gynnal y safonau uchaf o ran tryloywder a gonestrwydd, ar 30 Hydref cyhoeddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y treuliau y mae'r Aelodau wedi'u hawlio drwy gyfrwng ein system dreuliau Folding Space, sy'n cynnwys hawliadau rhwng mis Ebrill i fis Gorffennaf 2009.

Edrychodd 134 o bobl ar y wefan dreuliau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y wybodaeth a chynyddodd y ffigur hwn drwy gydol yr wythnos honno gan gyrraedd 326 o'i gymharu â 27 yn ystod yr wythnos flaenorol. Yn dilyn y cyhoeddiad diweddaraf, ni chafwyd cwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad na'r cyhoedd ac ni chafodd y manylion eu herio, ac roedd yr ychydig sylw a gafwyd yn y wasg yn ffafriol yn gyffredinol. Mae hyn i gyd yn cadarnhau bod ein strategaeth o'i gwneud yn haws i bobl weld gwybodaeth am dreuliau'r Aelodau, ynghyd â'n penderfyniad i gryfhau'r drefn lwfansau, yn cael effaith gadarnhaol. Rydym yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau i gyhoeddi hawliadau bob mis o hyn ymlaen (tri mis ar ôl yr hawliad)

(d) Ymweliad y Comisiynydd Gwybodaeth

Gan adeiladu ar y berthynas waith dda rhwng swyddogion y Cynulliad a staff swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghaerdydd, daeth Christopher Graham, y Comisiynydd Gwybodaeth newydd, i'r Cynulliad ar 10 Tachwedd. Daeth Anne Jones, Dirprwy Gomisiynydd Cymru gydag ef. Yn ystod ei ymweliad, cyfarfu â Phrif Weinidog Cymru, Claire Clancy a Keith Bush.

Er y bu'n rhaid gohirio derbyniad i Aelodau'r Cynulliad oherwydd pwysau gwaith yn y Cyfarfod Llawn, gobeithio y caiff y derbyniad yn awr ei gynnal ar 24 Tachwedd. Bydd Anne Jones yn gweithio gyda swyddogion y Cynulliad i gyflwyno sesiwn sbardun ar Ryddid Gwybodaeth ar 23 Tachwedd.

(e) Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan, 15 Hydref

Estynnwyd gwahoddiad i'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol i arwain dau grŵp trafod yng Nghynhadledd Safonau Cymru Gyfan ar 15 Hydref a chafwyd cynrychiolaeth dda iawn (o gyrff llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill Cymru). Manteisiodd ar y cyfle i egluro darpariaethau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafwyd trafodaeth fywiog gan archwilio'n drylwyr y trefniadau gwrthgyferbyniol ar gyfer gorfodi safonau ymddygiad Aelodau'r Cynulliad ac aelodau awdurdodau lleol.

1.4 Nod strategol – gweithio'n gynaliadwy

(a) Gwella gradd ynni'r ystâd

Fel y gŵyr yr Aelodau, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i adolygu'r cyfleoedd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon ar ein hystâd. O ganlyniad, dros y ddwy flynedd nesaf, rydym wedi rhoi nifer o newidiadau ar waith i wella'n gradd ynni, fel a ganlyn:

| | 2007/08 | 2009/09 |
|---|---|---|
| Tŷ Hywel | G | F |
| Y Senedd | C | B |
| Pierhead | C | B |

Dylid nodi bod y Pierhead ar gau ers blwyddyn er mwyn ymgymryd â gwaith adnewyddu a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y radd ynni uwch. Pan fydd yr adeilad yn ailagor a'r cyfarpar ychwanegol yn cael ei osod fel rhan o'r ganolfan digwyddiadau ac arddangosfeydd, mae'n debygol y gall y radd ynni ostwng yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a chynghorwyr arbenigol gan gynnwys Arups i gyflwyno rhaglen arbed ynni ar gyfer ystâd Bae Caerdydd.

1.5 Nod Strategol – darparu'r gwasanaeth gorau yn y modd mwyaf effeithiol

**(a) Adolygiad annibynnol o wasanaethau dwyieithog**

**Ddechrau mis Tachwedd, cyhoeddwyd hysbyseb i chwilio am bobl i fod yn aelodau o banel a fydd yn cynnal Adolygiad Annibynnol o'n gwasanaethau dwyieithog. Yn dilyn y dyddiad cau, 23 Tachwedd, bydd y panel dethol yn ystyried y ceisiadau er mwyn penodi ym mis Rhagfyr. Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad:**

**Ystyried yr holl wasanaethau dwyieithog a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys datblygiadau mewn gwasanaethau dwyieithog ers sefydlu'r Comisiwn yn 2007, a'r cynigion a osodwyd allan yn natganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad ar 30 Medi 2009.**

1. **Ystyried sylwadau'n prif gwsmeriaid ar y gwasanaethau dwyieithog presennol a gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.**

2. **O gofio'r angen i sicrhau gwerth am arian, a chan fanteisio ar y wybodaeth sydd ar gael am arfer gorau mewn gwledydd eraill, gwneud argymhellion i Gomisiwn y Cynulliad eu hystyried ynghylch darparu gwasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad, gan gynnwys:**

   - **cynigion posibl ar gyfer diffinio a gwireddu uchelgais y Cynulliad o fod yn "gorff cwbl ddwyieithog";**

   - **sefydlu egwyddorion a ddylai fod wrth wraidd dulliau o gyflwyno gwasanaethau dwyieithog;**

   - **ystyried pob dull o ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys, er enghraifft, sianeli cyfryngol newydd a deunyddiau archif.**

4. **Argymell y ffordd ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad ac wedi hynny (pan fydd y Cynllun Iaith Gymraeg wedi dod i ben).**

**2. Gweithgareddau a digwyddiadau allweddol**

**2.1 Busnes y Cynulliad**

**(a) Darlledu**

Yn dilyn penderfyniad BBC Wales i roi'r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad, rydym wedi cael 30 o gwynion am hynny gan y cyhoedd mewn gwahanol fformatau. Drwy weithio gydag S4C2, rydym wedi anfon yr un neges iddynt i gyd, gan eu cyfeirio at ein gwasanaeth gweddarlledu, sef, senedd.tv. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r BBC ar eu prosiect Democratiaeth fyw a aeth yn fyw ar 3 Tachwedd wedi i'r digwyddiad gael ei lansio yn y Senedd. Peter Knowles sy'n lansio'r prosiect yn awr, ac ef hefyd sy'n rheoli BBC Parliament, ac rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gydag ef ynghylch hyrwyddo trafodion y Cynulliad ar y sianel honno.

(b) Y Mesur Comisiynydd Safonau

Bydd y Cynulliad yn cwblhau'r trafodaethau ynghylch y darn cyntaf o ddeddfwriaeth a gynigiwyd gan bwyllgor wrth i'r Mesur fynd gyfnodau tri a phedwar ar 14 Hydref. Bydd y Mesur Cynulliad hwn yn sicrhau bod swydd Comisiynydd Safonau wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth ac y bydd:

- yn gallu hyrwyddo safonau uchel ym mywyd cyhoeddus Aelodau'r Cynulliad;
- yn meddu ar y pwerau i'w alluogi i ymchwilio'n drylwyr i gwynion; a'i
- fod yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad a, chan hynny, y bydd yn gallu gweithredu'n gwbl wrthrychol.

Cytunwyd ar nifer o welliannau i gryfhau pwerau'r Mesur arfaethedig ac i sicrhau ei fod yn fwy eglur.

Bydd cyfnod hysbysiad y Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod i ben ar 11 Tachwedd. Yna bydd y Mesur yn mynd gerbron y Cyfrin Gyngor ar 9 Rhagfyr i gael Cymeradwyaeth Frenhinol.

2.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Pierhead

Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Medi ac mae'r contractwyr ar hyn o bryd yn llwyddo i gadw at yr amserlen a disgwylir y bydd y gwaith adeiladu a'r gwaith o osod y

**cyfarpar arddangos wedi'i gwblhau erbyn y Nadolig. Clustnodwyd mis Ionawr ar gyfer cwblhau gwaith i unioni unrhyw ddiffygion ac i osod y meddalwedd. Mae cynnwys y meddalwedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae'r darparwyr yn cydweithio'n agos â staff y Cynulliad. Disgwylir y bydd Bwrdd y Prosiect yn cytuno ar y cynlluniau gweithredol terfynol cyn y toriad. 1 Mawrth yw'r dyddiad lansio o hyd a bwriedir cynnal sesiynau yn y Pierhead (tebyg i'r ŵyl Wleidyddiaeth) ar 4/5/6 Mawrth. Bydd cyflwyniad sy'n rhoi braslun o ddiben a threfniadaeth y Pierhead ar ei newydd wedd ar gael i'r grwpiau plaid eu trafod erbyn wythnos gyntaf mis Rhagfyr.**

**2.3 Ymweliad gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin**

**Ar 30 Medi, croesawyd y Gwir Anrhydeddus John Bercow AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, i'r Cynulliad Cenedlaethol.**

**Daeth y Siaradwr yng nghwmni Robert Rogers, Clerc Deddfwriaeth, ac Ian Davis, Cludwydd Pwrffil y Llefarydd a chyfarfu'r Llywydd yn ffurfiol â nhw wrth iddynt gyrraedd. Yn ystod ei ymweliad, teithiodd y Llefarydd o amgylch y Senedd, gwyliodd y Gweinidog Iechyd yn ateb cwestiynau o'r oriel gyhoeddus, a chyfarfu ag Aelodau Cynulliad a swyddogion i glywed am gasgliadau diweddar y panel adolygu, ymhlith materion eraill.**

**Fel rhan o raglen allgymorth y Llefarydd, cyfarfu hefyd â phlant ysgol a oedd yn ymweld â'r Cynulliad ac ymwelodd ag ysgol yng Nghaerdydd lle bu'n siarad â'r disgyblion am ei rôl ac am waith Tŷ'r Cyffredin. Daeth ymweliad y Llefarydd i ben gyda chyflwyniad gan Peter Black AS, Comisiynydd y Cynulliad, ar e-ddemocratiaeth, Senedd.tv, y wefan ac e-ddeisebau.**

**Roedd y llythyrau a gafwyd gan y Llefarydd ar ôl ei ymweliad yn llawn canmoliaeth am y croeso a gafodd yng Nghaerdydd ac am frwdfrydedd y staff y cyfarfu â nhw yn y Cynulliad. Yn dilyn ei ymweliad, rydym am sicrhau y bydd y Llefarydd yn cael y wybodaeth allweddol am yr agweddau hynny ar ein gwaith y dangosodd ddiddordeb penodol ydynt e.e. e-ddeisebau a'r system dreuliau ar-lein.**

## 2.4 Penodi staff

Penodwyd Lynne Flux yn Bennaeth yr adran Archwilio Mewnol yn dilyn cystadleuaeth agored. Dechreuodd ar ei gwaith ar 9 Tachwedd a bydd yn gweithio yn yr Uned Gorfforaethol. Mae'r penodiad hwn yn braenaru'r tir ar gyfer cynnal archwiliadau mewnol "yn fewnol" wedi i gytundeb Bentley Jennison ddod i ben wedi iddynt gwblhau eu gwaith ar flwyddyn ariannol 2009-10.

Ers mis Gorffennaf, mae 37 o bobl wedi'u penodi i swyddi drwy gynlluniau recriwtio mewnol ac allanol, gan gynnwys:

- chwe swydd yng Ngwasanaeth y Pwyllgorau – Ail Glercod a Dirprwy Glercod yn bennaf;
- chwe swydd yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi – gan gynnwys pedwar cyfieithydd a golygydd a benodwyd fel rhan o'r cynllun cyfieithwyr dan hyfforddiant; a
- saith swydd yn y Tîm Diogelwch.

3. Adroddiad ariannol

Gosodwyd y Gyllideb Atodol ar 14 Gorffennaf 2009 (GEN-LD7634) a chafodd ei thrafod a'i chytuno ar 20 Hydref 2009. Y gyllideb flynyddol ar gyfer 2009-10 yw £49.701miliwn, sef cynnydd o £1.95miliwn. Mae'r cynnydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer prosiect y Rhwydwaith Unedig (UNO). Mae'r gyllideb ar gyfer y prosiect hwn wedi codi o £0.2m i £2.9m er mwyn gwella trefniadau ar gyfer dilyniant busnes (bydd cyllidebau presennol yn talu am hyn).

Mae cyllideb y Comisiwn ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Medi yn dangos gwariant net o £21.029 miliwn, sef 42% o gyfanswm cyllideb 2009/10. Mae ychydig o broffiliau gwariant prosiectau gan gynnwys prosiect UNO a nodir uchod) yn rhagweld y caiff y rhan fwyaf o'r gyllideb ei wario yn ystod hanner olaf y flwyddyn ariannol. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am ein perfformiad cyllidebol yn parhau i gael ei chyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

I baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, cymeradwywyd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2010/11, sef £48.973miliwn, ar 21Hydref 2009. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ailgyflwyno'r gyllideb i ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyllid a byddwn yn rhoi ymateb llawn i'r Pwyllgor ddechrau mis Rhagfyr, a chaiff hyn ei rannu â'r Comisiynwyr.

4. Gwybodaeth ychwanegol

4.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ryddhawyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ers yr adroddiad diwethaf yn Atodiad A. Gellir darparu'r rhestr lawn i'r Comisiynwyr ar gais.

## GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU I WELD GWYBODAETH MEDI-HYDREF 2009

- **Gwybodaeth am y cynllun ailfrandio**
- **Gwybodaeth am ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff**
- **Gwybodaeth am gyllideb flynyddol y Gwasanaeth Cyfathrebu Allanol**
- **Nifer o weithwyr yn y Cynulliad sy’n ennill dros £53,108 y flwyddyn**
- **Gwybodaeth am brynu ar ailwampio’r bws**
- **Sawl gwaith y cyrchwyd Cofnod y Trafodion drwy’r tudalennau Cymraeg ar wefan y Cynulliad**
- **Gwybodaeth am radd effeithlonrwydd ynni Tŷ Hywel**
- **Gwybodaeth am Gamu Ymlaen Cymru**
- **Manylion am y modd yr aethom ati i asesu pa mor aml y caiff y fersiwn Gymraeg o Gofnod y Trafodion ei chyrchu**
- **Data’n ymwneud â nifer y ceisiadau i weld gwybodaeth a gafwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol**

## GWYBODAETH A GADWYD YN ÔL YN DILYN CEISIADAU I WELD GWYBODAETH MEDI-HYDREF 2009

- **Ni chadwyd dim gwybodaeth yn ôl**